# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin 2024** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet** |

Ddydd Mercher 22 Mai 2024, cyhoeddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf. Cynhaliwyd 'cyfnod cau pen y mwdwl' am ddeuddydd wedi hyn cyn addoedi Senedd y DU ddydd Gwener 24 Mai. Yna, diddymwyd Senedd y DU ddydd Iau 30 Mai.

Roedd y Biliau canlynol gan Senedd y DU yn destun y broses cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru cyn diddymu Senedd y DU—

- Y Bil Cyfiawnder Troseddol
- Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
- Y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)
- Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)
- Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad
- Y Bil Rhentwyr (Diwygio)
- Y Bil Tybaco a Fêps
- Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Cafodd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024. Methodd yr holl Filiau eraill a restrir uchod yn dilyn diddymu Senedd y DU.

Maes o law, bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu rhagor o wybodaeth â Senedd Cymru ynglŷn â'r goblygiadau i Gymru yn sgil y Biliau hynny a gafodd y Cydsyniad Brenhinol yn ystod y cyfnod cau pen y mwdwl.